

CYNGOR CYLLIDO ADDYSG UWCH CYMRU

# Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yng Nghymru

## GWYBODAETH BERFFORMIAD 2004



Cyngor Cyllido Addysg  
Uwch Cymru  
**hefcw**  
Higher Education Funding  
Council for Wales





## HYFFORDDIANT CYCHWYNNOL ATHRAWON YNG NGHYMRU – GWYBODAETH BERFFORMIAD 2004

Pleser mawr gennyf yw cyflwyno'r argraffiad diweddaraf o'r llyfryn Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yng Nghymru - Gwybodaeth Berfformiad a gyhoeddir gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC).

Gobeithiaf y bydd y llyfryn, sy'n dangos y cyfoeth o ddewisiadau hyfforddiant cychwynnol athrawon (HCA) ac addysg sydd ar gael i chi yn sefydliadau addysg uwch Cymru, o gymorth i chi ddewis cwrs hyfforddiant athrawon addas yng Nghymru.

Mae cychwyn cwrs yn un o brifysgolion neu golegau Cymru yn un o nifer o ffyrdd y gallwch hyfforddi i ddod yn athro. Ar y tudalennau sy'n dilyn, rhoddir manylion y mathau o gyrsiau hyfforddiant athrawon sydd ar gael yng Nghymru a ble y gallwch ymgymryd â'r rhan o'ch cwrs HCA a wnewch yn y coleg. Byddwch yn gweld o'r wybodaeth a ddarperir fod gan bob sefydliad, neu ddarparwr HCA, nifer o bartner ysgolion lle y gallwch wneud eich hyfforddiant ysgol. Rydym hefyd wedi cynnwys gwybodaeth am ansawdd a safonau cyrsiau hyfforddiant cychwynnol athrawon yng Nghymru a pheth gwybodaeth ystadegol am y niferoedd a recriwtir i'r cyrsiau hyn i'ch helpu i wneud eich penderfyniad.

Mae nifer o ffyrdd gwahanol o wneud eich hyfforddiant, gan gynnwys cyrsiau amser-llawn dwy a thair blynedd i israddedigion, cyrsiau amser-llawn blwyddyn i raddedigion, a chyrsiau dysgu agored a dysgu o bell. Bu'r Cyngor yn cyllido datblygu nifer o gyrsiau arloesol i annog pobl alluog o amrywiaeth eang o gefndiroedd a sefyllfaoedd i ymgymryd â dysgu fel gyrfa. Mae'r rhain yn cynnwys cyrsiau rhagarweiniol i hyfforddeion sy'n newydd i addysg uwch, cyrsiau byr i ddiweddarau eich gwybodaeth bwnc, a chyrsiau gloymi a thrawsnewid i'r rheiny sydd eisoes yn athrawon cymwysedig. Rhoddir rhagor o wybodaeth ar dudalennau 8 a 9.

Cyn i chi allu dod yn athro cymwysedig, bydd angen i chi gwblhau gradd neu gymhwyster cyfwerth naill ai cyn neu fel rhan o'ch hyfforddiant. Dylech gysylltu â'r sefydliadau i gael gwybodaeth am y cymwysterau y byddai eu hangen arnoch i fynd ar gwrs gan ei bod hi'n bosibl y byddant yn gofyn am fwy na'r gofynion TGAU lleiaf mewn mathemateg, Saesneg a gwyddoniaeth.

Rhoddir gwybodaeth ddefnyddiol yn y llyfryn hwn am y cymorth ariannol sydd ar gael yn ystod eich hyfforddiant. Er nad yw CCAUC yn cyllido myfyrwyr yn uniongyrchol fel rheol, mae'n parhau i roi cymorth ariannol gwerthfawr i'r sefydliadau i'w drosglwyddo i bob myfyriwr israddedig uwchradd yn ystod eu cyfnodau o brofiad ysgol drwy'r Cynllun Recriwtio Hyfforddiant Athrawon. Rhoddir rhagor o wybodaeth ar dudalen 6.

Mae CCAUC yn gweithio gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru, Estyn (Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru), Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru a'r darparwyr HCA i sicrhau'r cyfleoedd gorau posibl ar gyfer athrawon dan hyfforddiant yng Nghymru. Ein nod yw parhau i wella ansawdd a safonau cyrsiau hyfforddiant athrawon yng Nghymru a sicrhau recriwtio da i gyrsiau HCA.

Pob hwy! i chi wrth i chi chwilio am y cwrs iawn i gwrdd â'ch anghenion ac wrth i chi ddechrau ar y daith gyffrous i ddod yn athro.

*Yr Athro Philip Gummett, Prif Weithredwr, CCAUC, Medi 2004*



## CYNNWYS

	Athrofa Addysg Uwch Gogledd-ddwyrain Cymru		Ysgol Addysg Abertawe yn Athrofa Addysg Uwch Abertawe		Coleg y Drindod Caerfyrddin		Prifysgol Cymru, Aberystwyth		Prifysgol Cymru, Bangor		Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd		Prifysgol Cymru, Casnewydd	
Rhif y Dudalen	28 - 29		18 - 21		30 - 31		12 - 13		14 - 16		22 - 24		26 - 27	
	I-R	Ô-R	I-R	Ô-R	I-R	Ô-R	I-R	Ô-R	I-R	Ô-R	I-R	Ô-R	I-R	Ô-R
CYRSIAU CYNRADD	✓		✓	✓	✓	✓		✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
PYNCIAU UWCHRADD														
Addysg Gorfforol										✓		✓		
Addysg Grefyddol						✓				✓				
Astudiaethau Busnes				✓										
Bioleg				✓			✓			✓		✓		
Celf a Dylunio				✓						✓		✓		
Cemeg				✓			✓			✓		✓		
Cerddoriaeth										✓		✓		
Cymraeg				✓			✓			✓		✓		
Daearyddiaeth				✓			✓							
Drama							✓				✓			
Dylunio a Thechnoleg				✓					✓			✓	✓	✓
Ffiseg				✓			✓			✓		✓		
Gweithgareddau Awyr Agored										✓				
Gwyddoniaeth Gyffredinol/Integredig				✓								✓		
Hanes				✓			✓					✓		
Ieithoedd Tramor Modern				✓			✓			✓		✓		
Mathemateg				✓						✓		✓		
Saesneg				✓			✓			✓		✓	✓	
Technoleg Gwybodaeth				✓						✓		✓		✓

## HYFFORDDI I DDYSGU YNG NGHYMRU

Mae'r llyfryn hwn yn rhoi gwybodaeth i chi am gyrsiau hyfforddiant athrawon yn sefydliadau addysg uwch Cymru – o'r mathau o gyrsiau sydd ar gael i'r ystod o bynciau sy'n cael eu cynnig. Cewch wybodaeth ddefnyddiol yma a fydd yn eich helpu i wneud penderfyniad am y cwrs yr hoffech ei ddilyn a ble i hyfforddi. Mae hefyd yn cynnwys asesiadau o ansawdd y cyrsiau yng Nghymru ac, i'r sawl sy'n hoff o ystadegau, data diddorol ar y cyrsiau yn y prifysgolion neu golegau – y sefydliadau hyfforddiant athrawon - lle gallwch hyfforddi i ddod yn athro/athrawes.

## BETH YW HYFFORDDIANT CYCHWYNNOL ATHRAWON?

Bydd angen i chi ymgymryd â chyfnod o addysg a hyfforddiant er mwyn dod yn athro cymwysedig ac ymuno â'r proffesiwn dysgu. Mae'r statws proffesiynol a enillwch ar ôl cwblhau cwrs hyfforddiant cychwynnol athrawon (HCA) yn llwyddiannus yn cael ei alw'n [Statws Athro Cymwysedig \(SAC\)](#). Rhaid i chi ennill SAC i allu dysgu mewn ysgol a gynhelir gan awdurdod addysg lleol yng Nghymru a Lloegr.

## SUT Y GALLAF ENNILL SAC?

CYRSIAU HCA MEWN SEFYDLIADAU ADDYSG UWCH

...os oes gennych radd israddedig eisoes

- yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn y pwnc uwchradd yr ydych am ei ddysgu; [neu](#)
- os hoffech ddysgu ar y lefel gynradd

gallwch ddilyn [Tystysgrif Addysg i Raddedigion \(TAR\)](#)

amser-llawn mewn Prifysgol neu Goleg yng Nghymru sy'n cynnig HCA.

...os nad oes gennych radd israddedig

- [neu](#) os ydych wedi cwblhau'n llwyddiannus o leiaf un flwyddyn mewn addysg uwch; [neu](#)
- os ydych chi'n dymuno dysgu pwnc sy'n dra gwahanol i'r un y mae gennych gymhwyster ynddo

gallwch ddilyn cwrs [BAdd](#), [BA Addysg neu BSc](#), gan ddbynnu ar eich cymwysterau blaenorol a'r math o gwrs sydd ar gael yn y sefydliad o'ch dewis.

## PROFION SGILIAU

Tra bo hyfforddiant cychwynnol athrawon yn Lloegr yn cynnwys gofyniad i gymryd tri phrawf sgiliau mewn llythrennedd, rhifedd a TGCh, nid oes angen cymryd profion sgiliau o'r fath yng Nghymru. Nid yw hyn yn effeithio ar SAC a enillir yng Nghymru – cydnabyddir bod hyn yn gyfwerth â SAC a enillir yn Lloegr.

## RÔL YSGOLION

Mae darparwyr hyfforddiant athrawon yn rhedeg eu cyrsiau mewn partneriaeth ag ysgolion.

- Byddai myfyriwr ar gwrs TAR cynradd un flwyddyn yn treulio **18 wythnos** yn hyfforddi mewn ysgolion;
- Byddai myfyriwr ar gwrs tair blynedd i israddedigion neu gwrs TAR uwchradd un flwyddyn yn treulio **24 wythnos** yn hyfforddi mewn ysgolion.

Mae sefydliadau hyfforddiant athrawon yn gweithio gyda phartner ysgolion yng Nghymru ac mewn rhai siroedd yn Lloegr i gynnig y profiad addysg a hyfforddiant gorau posibl i ddarpar athrawon.

## LLWYBRAU ERAILL

### DYSGU O BELL

Os nad ydych yn gallu ymgymryd â'ch cwrs mewn sefydliad addysg uwch, efallai yr hoffech roi cynnig ar un o'r dewisiadau dysgu agored a dysgu o bell newydd sydd ar gael i fyfyrwyr TAR. Ar hyn o bryd mae Prifysgol Cymru, Aberystwyth yn cynnig darpariaeth dysgu o bell mewn Cymraeg ac ieithoedd estron modern, ac mae Prifysgol Cymru, Bangor yn cynnig cwrs cyffelyb mewn gwyddoniaeth. Byddwchystal â chysylltu â'r darparwr i gael rhagor o fanylion.

### Y RHAGLENNI ATHRAWON GRADDEDIG A CHOFRESTREDIG

Yn ogystal, mae'r Rhaglenni Athrawon Graddedig a Chofrestredig, a redir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, yn caniatáu i chi ennill SAC tra'n gweithio fel athro/athrawes mewn ysgol.

- Os oes gennych radd gyntaf neu gymhwyster cyfwerth, gallwch wneud cais am y [Rhaglen Athrawon Graddedig](#). Mae'r hyfforddiant yn cymryd tri mis i un flwyddyn ysgol, gan ddbynnu ar eich profiad blaenorol.
- Os ydych wedi cwblhau'n llwyddiannus yr hyn sy'n cyfateb i ddwy flynedd o astudiaeth addysg uwch, gallwch wneud cais am y [Rhaglen Athrawon Cofrestredig](#). Drwy'r rhaglen hon, byddwch yn cwblhau eich gradd ac yn hyfforddi i ddysgu yr un pryd; mae'n cymryd dwy flynedd fel rheol i ennill SAC.



Bydd angen i chi ddod o hyd i ysgol a fydd yn eich cyflogi fel athro heb gymhwyster cyn gwneud cais. I gael rhagor o wybodaeth neu ffurflen gais, cysylltwch â Llywodraeth Cynulliad Cymru ar 029 2082 6749 neu drwy anfon e-bost i [teachingenquiries@wales.gov.uk](mailto:teachingenquiries@wales.gov.uk).

#### CYRSIAU CYFRWNG CYMRAEG A'R IAITH GYMRAEG

Mewn llawer o sefydliadau gall myfyrwyr ymgymryd â pheth neu'r cyfan o'u hastudiaeth drwy gyfrwng y Gymraeg, neu gellir trefnu iddynt wneud eu hymarfer dysgu mewn ysgol cyfrwng Cymraeg neu ysgol ddwyieithog. Yng Nghymru, nid oes unrhyw ofyniad i ymgymryd â HCA drwy gyfrwng y Gymraeg – rhedir cyrsiau cyfrwng Cymraeg a Saesneg fel ei gilydd a chroesewir ceisiadau am y naill a'r llall.

## GWYBODAETH AM ANSAWDD CYRSIAU

Estyn, Swyddfa Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, yw'r corff sy'n gyfrifol am arolygu addysg a hyfforddiant cychwynnol athrawon yng Nghymru. Mae Estyn yn annibynnol ar Lywodraeth Cynulliad Cymru ond yn cael ei chyllido ganddi.

Yn y llyfryn hwn rhoddir gwybodaeth am ansawdd y cyrsiau yn sefydliadau addysg uwch (SAUau) Cymru. Byddwch yn gweld i rai SAUau gael eu harolygu yn ystod cylch arolygu cyntaf Estyn rhwng 1996/97 a 2000/01. Arolygwd SAUau eraill yn fwy diweddar; yn achos y rhain, cyflwynwyd y wybodaeth a'r canlyniadau mewn ffordd ychydig yn wahanol gan fod y fframwaith y mae Estyn yn gweithio o'i fewn wedi newid. Oherwydd y gall gwybodaeth fynd yn hen, nodwyd blwyddyn pob arolygiad yn glir. Rhoddir gwybodaeth am Brifysgol Cymru Abertawe ac am Athrofa Addysg Uwch Abertawe gan na sefydlwyd Ysgol Addysg Abertawe, y sefydliad cyfunedig, hyd fis Awst 2004. Mae adroddiadau arolygu llawn ar SAUau a arolygwyd o 2002/03 ar gael ar wefan Estyn [www.estyn.gov.uk](http://www.estyn.gov.uk).

## GWYBODAETH YSTADEGOL

Oherwydd y gall carfanau myfyrwyr fod yn fach pan dorri hwy i lawr yn ôl pwnc uwchradd, gall y graddau a roddir am bynciau uwchradd fod wedi'u seilio ar nifer bach o fyfyrwyr. Hefyd gall ansawdd y myfyrwyr a recriwtir newid o flwyddyn i flwyddyn. Wrth edrych ar yr ystadegau, dylech fod yn ymwybodol hefyd fod sefydliadau'n cael eu hargymell i gynghori myfyrwyr i roi'r gorau iddi os yw eu tiwtoriaid o'r farn nad oes ganddynt y rhinweddau i wneud athrawon da.

Gwaith yr AYAU, yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch, yw casglu data am fyfyrwyr gan SAUau yn y DU. Mae'r wybodaeth a gafwyd drwy'r AYAU ar gyfer 2002/03 yn cael ei chyflwyno ar gyfer pob sefydliad yn y llyfryn hwn. Rhoddir data, yn ôl sefydliad, am gyrsiau israddedig ac ôl-raddedig a chyrtsiau cyfnod cynradd ac uwchradd, ac yn ôl pwnc uwchradd.

Rhennir y data am bob sefydliad yn ddau dabl, y naill am israddedigion a'r llall am raddedigion. Gweler tudalen 7 am dabl enghreifftiol sy'n egluro'r data a ddangosir yn y tablau. Lle mae pynciau uwchradd a restrwyd yn y wybodaeth gefndirol am sefydliad neilltuol yn wahanol i'r rheiny yn y tablau ystadegol, mae pynciau wedi cael eu hychwanegu neu eu tynnu'n ôl.

Diffinnir myfyrwyr cyfrwng Cymraeg fel myfyrwyr ar gwrs HCA a luniwyd i alluogi hyfforddeion i addysgu'n ddwyieithog neu fyfyrwyr ar gwrs HCA sy'n arwain at dystysgrif addysg ddwyieithog ffurfiol. Mae dwyieithog yn y cyd-destun hwn yn golygu Cymraeg a Saesneg.

## CYMORTH ARIANNOL

Mae Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) yn gweinyddu cyllid i gynnal addysg, ymchwil a gweithgareddau cysylltiedig yn sefydliadau addysg uwch Cymru ac yn darparu cyllid ar gyfer cyrsiau addysg uwch penodedig mewn colegau addysg bellach Cymru. Mae CCAUC hefyd yn gyfrifol am gyllido cyrsiau HCA ac am achredu darparwyr HCA yng Nghymru, ond nid yw'n rhoi cymorth uniongyrchol i fyfyrwyr drwy grantiau neu fwsariau. Serch hynny, dylai'r wybodaeth a ganlyn roi amcan i chi o'r cymorth ariannol ac ysgogiadau sydd ar gael o gyrrff eraill.

#### Talu ffioedd

Mae ffioedd cwrs myfyrwyr cartref a dinasyddion yr Undeb Ewropeaidd sy'n dilyn cwrs Tystysgrif Addysg i Raddedigion yn cael eu talu'n llawn. Bydd angen i fyfyrwyr cartref gysylltu â'u hawdurdod addysg lleol a dylai dinasyddion yr UE gysylltu â Thim Ewropeaidd yr Adran Addysg a Sgiliau ar 01325 391199 neu [EUTeam@dfes.gsi.gov.uk](mailto:EUTeam@dfes.gsi.gov.uk) i gael rhagor o wybodaeth am geisiadau a hawliau.

#### Grant Hyfforddi Llywodraeth Cynulliad Cymru

Mae grant hyfforddi o **£6,000** ar gael i hyfforddeion cymwys sy'n dilyn cyrsiau TAR cynradd neu uwchradd sy'n arwain at Statws Athro Cymwysedig. Trefnir naw rhandaliad misol gan y sefydliad hyfforddiant athrawon. Yn achos myfyrwyr cymwys sy'n dilyn cyrsiau HCA mathemateg a gwyddoniaeth ôl-raddedig, bydd y grant hyfforddi yn codi i **£7,000** ar gyfer myfyrwyr sy'n dechrau cyrsiau TAR o fis Medi 2005.

#### Grant Addysgu Llywodraeth Cynulliad Cymru

Bydd hyfforddeion cymwys sy'n mynd ymlaen i gwblhau o leiaf pedwar mis fel athro cymwysedig mewn ysgol a gynhelir yng Nghymru neu Loegr mewn pwnc prinder uwchder ar ôl cwblhau eu cyfnod sefydlu yn llwyddiannus yn gallu derbyn grant addysgu ychwanegol o **£4,000**. Y pynciau prinder uwchradd ar hyn o bryd yw:

- Dylunio a thechnoleg
- Technoleg gwybodaeth
- Ieithoedd tramor modern
- Cymraeg
- Saesneg (gan gynnwys drama)
- Mathemateg
- Gwyddoniaeth

Bydd y grant addysgu, pan delir ef i athrawon mathemateg a gwyddoniaeth newydd, yn codi i £5,000 ar gyfer myfyrwyr sy'n dechrau cyrsiau TAR yn y meysydd hyn o fis Medi 2005.

Bydd angen i chi wneud cais i Lywodraeth Cynulliad Cymru am y grant addysgu ar ôl i chi gwrrd â'r meini prawf cymhwyster. Gellir cael rhagor o wybodaeth yn: [www.learning.wales.gov.uk](http://www.learning.wales.gov.uk).

#### Grant Lleoliad ar gyfer Israddedigion Uwchradd

Pwrpas y grant lleoliad ar gyfer israddedigion uwchradd yw helpu myfyrwyr yn ystod eu cyfnod o brofiad ysgol.

- Rhoddir grant o £1,000 bob blwyddyn i bob myfyriwr israddedig sy'n hyfforddi i ddysgu mewn pwnc prinder uwchradd.
- Rhoddir grant o £600 bob blwyddyn i bob myfyriwr israddedig sy'n hyfforddi i ddysgu mewn pwnc lle nad oes prinder athrawon.

Bydd eich darparwr HCA yn talu'r grant mewn dau randaliad. Bydd hefyd yn gallu rhoi rhagor o wybodaeth i chi ynghylch sut a phryd y byddwch yn cael yr arian.

#### Grant Dysgu'r Cynulliad (GDC)

Wedi'i gyllido gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, mae'r GDC yn darparu arian ychwanegol ar gyfer myfyrwyr o deuluoedd ar incwm isel a allai fel arall wynebu anawsterau ariannol wrth ymgymryd â chwrs addysg bellach neu addysg uwch. Gallwch wneud cais am y grant yn ychwanegol at eich benthyciad myfyriwr a ffurfiau eraill ar gymorth, ac nid oes angen i chi ei dalu'n ôl ar ddiwedd eich cwrs. Nid yw'r grant ar gael ond i fyfyrwyr sydd fel rheol yn byw yng Nghymru.

Gall israddedigion amser-llawn, myfyrwyr rhyngosod a myfyrwyr HCA a ddechreuodd eu cwrs yn neu ar ôl 2004/05 fod yn gymwys i dderbyn Grant Addysg Uwch o hyd at £1,000 gan yr Adran Addysg a Sgiliau, gan ddibynnu ar incwm y cartref.

Bydd myfyrwyr cymwys sydd â'u cartref yng Nghymru y mae eu hincwm asesadwy o fewn yr un band â'r rheiny sy'n gymwys ar gyfer y GDC mwyaf o £1,500 yn derbyn taliad ychwanegol o £500 o'r Cynllun GDC.

Bydd eich AALI yn gallu rhoi rhagor o gyngor i chi ar Grant Dysgu'r Cynulliad a'r Grant Addysg Uwch, neu ewch i [www.learning.wales.gov.uk](http://www.learning.wales.gov.uk)

O 2006/07 bydd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru y pŵer i benderfynu beth fydd y lefelau o ffoedd dysgu a chymorth i fyfyrwyr yng Nghymru wrth i gyfrifoldeb dros gymorth myfyrwyr gael ei ddatganoli o San Steffan i Lywodraeth y Cynulliad.

I gadw golwg ar ddatblygiadau polisi a'r hyn y mae datganoli yn ei olygu i sefydliadau AU, awdurdodau addysg lleol, myfyrwyr (heddiw ac yn y dyfodol), rhieni a gofialwyr, sefydlwyd gwefan sy'n ymwneud yn benodol â datganoli cymorth myfyrwyr yn [www.learning.wales.gov.uk/students](http://www.learning.wales.gov.uk/students)

Pwrpas y wefan yw ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych a rhoi gwybodaeth am bolisi Llywodraeth y Cynulliad ar gymorth myfyrwyr a ffoedd dysgu. Dalen-nodwch y wefan hon i sicrhau eich bod chi'n cael gwybod am y datblygiadau diweddaraf a fydd yn effeithio arnoch yn y flwyddyn academaidd 06/07.

#### Cronfeydd Wrth Gefn Ariannol (CWGA)

Mae Cronfeydd Wrth Gefn Ariannol Llywodraeth Cynulliad Cymru yn caniatáu i sefydliadau hyfforddiant athrawon roi cymorth disgrisiynol detholus i rai myfyrwyr sy'n wynebu anawsterau ariannol difrifol ac na allent fel arall fforddio dechrau neu barhau â'u cwrs. Gellir cael rhagor o wybodaeth am y rhain gan y swyddog cymorth myfyrwyr neu swyddog gwasanaethau myfyrwyr yn y Brifysgol dan sylw.

#### Y Cynllun Ysgogiadau Cyfrwng Cymraeg

Mae'r cynllun hwn ar gyfer rhai hyfforddeion sy'n cofrestru ar gwrs TAR uwchradd cyfrwng Cymraeg. Mae'n cynnig cymorth ariannol ac ieithyddol i fyfyrwyr y mae angen magu eu hyder a'u cymhwysedd i'w helpu i addysgu eu pwnc uwchradd drwy gyfrwng y Gymraeg. I ddarganfod a ydych chi'n gymwys i dderbyn y £1,200 sydd ar gael, cysylltwch â'ch darparwr hyfforddiant athrawon

#### Cymorth ariannol ychwanegol i hyfforddeion anabl

Mae'r Lwfans Myfyriwr Anabl yn helpu myfyrwyr gyda'r costau ychwanegol o fynychu eu cwrs, o ganlyniad i'w hanabledd. Gall myfyrwyr anabl ar gyrsiau HCA i raddedigion neu israddedigion fod yn gymwys ar gyfer y Lwfans. Mae canllaw'r Adran Addysg a Sgiliau, Bridging the Gap, yn rhoi rhagor o wybodaeth. Gallwch ei gael drwy ffonio 0800 731 9133 neu drwy gyrchu [www.dfes.gov.uk/studentsupport/uploads/Bridging-the-Gap-Welsh.pdf](http://www.dfes.gov.uk/studentsupport/uploads/Bridging-the-Gap-Welsh.pdf)

I gael gwybodaeth ychwanegol am gymorth ariannol, gan gynnwys arweiniad ar dalu ffoedd dysgu, benthyciadau myfyrwyr, a'r cymorth ychwanegol sydd ar gael os oes gennych ddibynyddion, gweler [www.dysgu.cymru.gov.uk/myfyrwyr/whats-new-w.htm](http://www.dysgu.cymru.gov.uk/myfyrwyr/whats-new-w.htm) ac [www.dfes.gov.uk/financialhelp](http://www.dfes.gov.uk/financialhelp) neu [www.aimhigher.ac.uk/en/student\\_finance](http://www.aimhigher.ac.uk/en/student_finance), neu ffoniwch linell gwybodaeth yr Adran Addysg a Sgiliau ar 0800 731 9133 neu eu ffôn testun 0800 328 8988.



## Tabl EsiampI

Cam	Pwnc	Nifer y Myfyrwyr	Cymwysterau mynediad ar gyfer mynediad yn 2002/03		Myfyrwyr Cyfrwng Cymraeg		Myfyrwyr yn ennill SAC yn 2002/03			Cymwysterau ymadael y rheini a gafodd SAC yn 2002/03									
			Sgôr tariff cyfartalog fesul myfyriwr	Amrediad rhyngchwartel y Sgôr tariff fesul myfyriwr	Nifer	%	Nifer yn ennill SAC	% (o blith y myfyrwyr blwyddyn olaf)	% Cyfrwng Cymraeg	Cyntaf		II(i)		II(ii)		III / Pas			
										Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%		
Cynradd		000	000	000 i 010															
Uwchradd	Saesneg	00	000	000 i 010		0	000	00	0	0	0	0	0	00	00	00	00	0	0
	Cerddoriaeth	00	00	0 i 0	0	0	0	00	0	*	00	+	0	0	00	0	00	0	0
	Cymraeg	00	00	0 i 20	00	000	0	000	000	*	00	*	00	0	00	0	00	0	0
Cyfanswm		000	000		00	0	000	000	0	00	0	00	00	00	00	00	00	0	0

Nifer y myfyrwyr ar y gofrestr ar 1 Tachwedd 2002

Cymwysterau mynediad yr hyfforddeion

Cyfanswm yr hyfforddeion cyfrwng Cymraeg ar y cwrs, ac fel % o nifer y myfyrwyr ar y gofrestr

Nifer y myfyrwyr a gafodd SAC, ac fel canran o nifer y myfyrwyr ar y gofrestr

Nifer yr hyfforddeion cyfrwng Cymraeg a gafodd SAC yn 2002/03, fel canran o gyfanswm y myfyrwyr a gafodd SAC

Dangosir y Sgôr tariff cyfartalog fesul myfyriwr ar gyfer myfyrwyr a gafodd fynediad drwy UCAS yn 2002/03 yn unig, gyda Sgôr tariff nad yw'n sero

Mae amrediad rhyngchwartel y Sgôr tariff fesul myfyriwr rhwng y gwerth y mae 25% o'r gwerthoedd yn is nag ef a'r gwerth y mae 25% o'r gwerthoedd yn uwch nag ef

Cymwysterau ymadael/dosbarthiadau gradd hyfforddeion is-raddedig a nifer y myfyrwyr cysylltiedig, fel canran o nifer y myfyrwyr a gafodd SAC

Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr HESA 2002/03

- Nodiadau:
1. Nifer y myfyrwyr a ddechreuodd ar 1 Tachwedd 2002 neu cyn hynny, na wnaethant ymadael cyn 2 Tachwedd 2002.
  2. Mae % y myfyrwyr cyfrwng Cymraeg a gafodd SAC fel canran o'r cyfanswm a gafodd SAC.
  3. Caiff myfyrwyr sy'n arbenigo yn y Gymraeg eu cyfrif fel myfyrwyr cyfrwng Cymraeg.
  4. Dangosir y Sgôr tariff cyfartalog fesul myfyriwr ar gyfer y myfyrwyr a gafodd eu derbyn drwy UCAS yn 2002/03 yn unig, gyda Sgôr tariff nad yw'n sero.
  5. Mae amrediad rhyngchwartel y Sgôr tariff fesul myfyriwr rhwng y gwerth y mae 25% o'r gwerthoedd yn is nag ef a'r gwerth y mae 25% o'r gwerthoedd yn uwch nag ef.

## CYRSIAU ARLOESOL

## Paratoi i Ddysgu

Beth yw ef?	Lluniwyd y cwrs blasu rhan-amser hyblyg hwn i'ch helpu i benderfynu a yw gyrfa fel athro yn gweddu i chi ac a oes unrhyw fylchau y mae angen i chi eu llenwi yn eich gwybodaeth bwnc.
Pa feysydd pwnc sydd ar gael?	Mathemateg, gwyddoniaeth, ieithoedd estron modern, dylunio a thechnoleg, Cymraeg.
Ble y gallaf ei wneud?	Menter ar y cyd yw hon rhwng Prifysgol Cymru, Aberystwyth, Prifysgol Cymru, Bangor, Ysgol Addysg Abertawe yn Athrofa Addysg Uwch Abertawe, Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd (APCC), Prifysgol Cymru, Casnewydd, a'r Brifysgol Agored yng Nghymru.
Sut y gallaf gael rhagor o wybodaeth?	Cysylltwch â Clare Schroder, Ffôn 029 2039 7911 E-bost c.a.schroder@open.ac.uk

## Tystysgrif Addysg Uwch – Cyflwyniad i Ddysgu Uwchradd

Beth yw ef?	Anelir y cwrs amser-llawn blwyddyn neu gwrs rhan-amser 2 flynedd hwn at fyfyrwyr aeddfed sy'n dymuno ennill cymhwyster a fydd yn eu galluogi i ymgymryd â HCA cynradd. Ar ôl cwblhau'r cwrs yn llwyddiannus dylech allu symud ymlaen i'r cyrsiau gradd BSc 2 flynedd mewn Addysg.
Pa feysydd pwnc sydd ar gael?	Gall myfyrwyr ddewis arbenigo mewn mathemateg gyda TGCh, mathemateg gyda gwyddoniaeth, dylunio a thechnoleg neu ddylunio a thechnoleg gyda TGCh ym Mhrifysgol Cymru, Casnewydd a cherddoriaeth, Cymraeg, ieithoedd estron modern (Ffrangeg) yn APCC.
Ble y gallaf ei wneud?	APCC, Prifysgol Cymru, Casnewydd.
Sut y gallaf gael rhagor o wybodaeth?	Prifysgol Cymru, Casnewydd: Mary Smith, Ffôn 01633 432114 E-bost marysmith3@newport.ac.uk APCC: Paul Thomas, 029 20416781, E-bost pthomas@uwic.ac.uk

## Y Rhaglen Estyn Gwybodaeth Bwnc

Beth yw ef?	Lluniwyd y cwrs hwn i wella gwybodaeth bwnc a hyder myfyrwyr cyn iddynt ddechrau cwrs TAR uwchradd.
Pa feysydd pwnc sydd ar gael?	Mathemateg.
Ble y gallaf ei wneud?	Ysgol Addysg Abertawe yn Athrofa Addysg Uwch Abertawe.
Sut y gallaf gael rhagor o wybodaeth?	Mrs Betty Morris, Ffôn 01792 518 656 E-bost b.morris@swansea.ac.uk

## Cwrs trawsnewid dwy flynedd

*(cwrs TAR llawn yw ail flwyddyn y cwrs ac felly bydd hyfforddeion yn derbyn grant hyfforddi Llywodraeth Cynulliad Cymru am yr elfen hon)*

Beth yw ef?	Anelir y cwrs at raddedigion newydd neu bobl sy'n newid gyrfa sy'n dymuno ymgymryd â chwrs TAR uwchradd mewn Cymraeg ond nad ydynt efallai yn cwrdd â'r gofynion mynediad ar gyfer cwrs TAR blwyddyn oherwydd diffyg gwybodaeth arbenigol. Bydd y rhaglen yn canolbwyntio'n arbennig ar addysgu Cymraeg fel ail iaith.
Pa feysydd pwnc sydd ar gael?	Cymraeg.
Ble y gallaf ei wneud?	Prifysgol Cymru, Bangor.
Sut y gallaf gael rhagor o wybodaeth?	Dr Gwyn Lewis, Ffôn 01248 383 012 E-bost w.g.lewis@bangor.ac.uk



## CYRSIAU ARLOESOL

Diploma mewn addysg Gymraeg uwchradd	
Beth yw ef?	Anelir y cwrs at raddedigion, a phobl gyda chymwysterau da nad oes ganddynt radd, sydd wedi astudio drwy gyfrwng y Gymraeg ac sy'n ceisio cymhwyster ffurfiol yn yr iaith, yn ogystal ag athrawon ysgol gynradd sy'n dymuno estyn eu gwybodaeth bwnc a'u sgiliau addysgu Cymraeg neu sy'n dymuno newid i addysgu Cymraeg ar y lefel uwchradd.
Pa feysydd pwnc sydd ar gael?	Cymraeg.
Ble y gallaf ei wneud?	Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd. (APCC)
Sut y gallaf gael rhagor o wybodaeth?	Paul Thomas, Ffôn 029 20416781 E-bost pthomas@uwic.ac.uk

Cwrs paratoi ar gyfer athrawon sy'n dychwelyd	
Beth yw ef?	Lluniwyd y cwrs hwn i ddarparu deunyddiau dysgu dwyieithog, wedi'u haddasu i anghenion yr unigolyn, ar gyfer athrawon sy'n dychwelyd. Mae'r rhaglen ar gael i athrawon sy'n dychwelyd ni waeth ble maent hwy'n byw.
Pa feysydd pwnc sydd ar gael?	Meysydd pwnc uwchradd.
Ble y gallaf ei wneud?	Menter ar y cyd yw hon rhwng Prifysgol Cymru, Aberystwyth a'r Brifysgol Agored yng Nghymru.
Sut y gallaf gael rhagor o wybodaeth?	Ms Margaret Bevan, Ffôn 01970 622104 E-bost learning@aber.ac.uk

## CYSYLLTIADAU

HCA yng Nghymru – Gwybodaeth Berfformiad

- **Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru**  
Cwrt Linden, Y Berllan, Clos Ilex, Llanisien, Caerdydd CF14 5DZ  
Ffôn: 029 2076 1861, Ffacs: 029 2076 3163, Ebst: info@hefcw.ac.uk  
Mae'r cyhoeddiad hefyd ar gael ar y [wefan](http://www.hefcw.ac.uk): www.hefcw.ac.uk
- **Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
Yr Adran Addysgu ac Arweinyddiaeth, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ  
Ffôn: 029 2082 5171 neu: 029 2082 6749  
Ebst: teachingenquiries@wales.gsi.gov.uk [gwefan](http://www.learning.wales.gov.uk): www.learning.wales.gov.uk
- **Estyn**  
Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd CF24 5JW  
Ffôn: 029 2044 6446, [gwefan](http://www.estyn.gov.uk): www.estyn.gov.uk
- **Yr Asiantaeth Hyfforddiant Athrawon - TTA**  
Portland House, Stag Place, Llundain SW1E 5TT  
[Linell Gwybodaeth Addysgu](http://www.linell.gov.uk)  
Ymgynghorydd Cymraeg Ffôn: 0845 6000 992  
Ymgynghorydd Saesneg Ffôn: 0845 6000 991  
[Gwefan](http://www.teach.gov.uk): www.teach.gov.uk
- **Y Brifysgol Agored yng Nghymru**  
24, Heol yr Eglwys Gadeiriol, Caerdydd CF11 9SA  
Ffôn: 029 2039 7911, [gwefan](http://www3.open.ac.uk): www3.open.ac.uk
- **Lindsey Reardon, Ymgynghorydd Athrawon, Cymru (TTA)**  
Adran CISU, APCC, Campws Cyncoed, Caerdydd CF23 6XD  
Ffôn: 029 2041 7064  
Ebst: lreardon@uwic.ac.uk



## Data am Fyfrwyr 2002/03 - POB SEFYDLIAD

Israddedig

Cam	Pwnc	Nifer y Myfyrwyr	Cymwysterau Mynediad ar Gyfer Mynediad yn 2002/03		Myfyrwyr Cyfrwng Cymraeg		Myfyrwyr yn Ennill SAC yn 2002/03			Cymwysterau ymadael y rheini a gafodd SAC yn 2002/03							
			Sgôr tariff cyfartalog fesul myfyrwr	Amrediad rhyngchwartel y Sgôr tariff fesul myfyrwr	Nifer	%	Nifer yn ennill SAC	% (o blith y myfyrwyr blwyddyn olaf)	% Cyfrwng Cymraeg	Cyntaf		II(i)		II(ii)		III / Pas	
										Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Cynradd		2,053	216	160 i 280	242	12	598	95	13	29	5	285	48	268	45	16	3
Uwchradd	Dylunio a Thechnoleg	101	217	140 i 260	26	26	30	100	17	*		8	27	+		15	50
	Drama	93	227	160 i 280	0	0	27	96	0	*		+		13	48	0	0
	Mathemateg	44	163	90 i 260	0	0	14	82	0	0	0	0	0	0	0	14	100
	Ieithoedd Tramor Modern	14	180	80 i 320	0	0	*	60	0	*		0	0	*		0	0
	Cerddoriaeth	10	220	220 i 220	0	0	*	75	0	*		0	0	*		0	0
	Cymraeg	19	80	60 i 80	19	100	6	100	100	*		*		*		0	0
Cyfanswm		2,334	213	160 i 280	287	12	681	95	13	40	6	306	45	290	43	45	7

Ol-raddedig

Cam	Pwnc	Nifer y Myfyrwyr	Myfyrwyr gyda gradd gyntaf neu II(i) ar y cyfnod mynediad		Myfyrwyr Cyfrwng Cymraeg		Myfyrwyr yn Ennill SAC yn 2002/03		
			Nifer gyda gradd is-raddedig Gyntaf/II(i)	%	Nifer	%	Nifer yn ennill SAC	%	% Cyfrwng Cymraeg
Cynradd		505	219	43	65	13	472	93	13
Uwchradd	Celf	57	32	56	5	9	53	93	6
	Celf a Dylunio	17	12	71	0	0	16	94	0
	Biolog	54	25	46	6	11	45	83	11
	Astudiaethau Busnes	21	5	24	0	0	20	95	0
	Cemeg	32	8	25	*		29	91	10
	Gwyddoniaeth Gyffredinol/Integredig	53	17	32	0	0	46	87	0
	Dylunio a Thechnoleg	68	27	40	0	0	57	84	0
	Drama	+	+	53	*	13	+	93	7
	Saesneg	116	66	57	*		105	91	2
	Daearyddiaeth	64	28	44	10	16	55	86	15
	Hanes	74	36	49	5	7	61	82	8
	Technoleg Gwybodaeth	50	11	22	*		46	92	4
	Mathemateg	87	29	33	9	10	76	87	12
	Ieithoedd Tramor Modern	100	27	27	6	6	84	84	7
	Cerddoriaeth	34	14	41	7	21	30	88	23
	Gweithgareddau Awyr Agored	*	*	50	0	0	*	100	0
	Addysg Gorfforol	107	47	44	*		101	94	4
	Ffiseg	29	10	34	5	17	23	79	17
	Addysg Grefyddol	39	14	36	9	23	35	90	26
	Cymraeg	44	30	68	44	100	40	91	100
Cyfanswm		1,570	667	42	185	12	1,412	90	12

Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr HESA 2002/03

- Nodiadau:
1. Nifer y myfyrwyr a ddechreuodd ar 1 Tachwedd 2002 neu cyn hynny, na wnaethant ymadael cyn 2 Tachwedd 2002.
  2. Mae % y myfyrwyr cyfrwng Cymraeg a gafodd SAC fel canran o'r cyfanswm a gafodd SAC.
  3. Caiff myfyrwyr sy'n arbenigo yn y Gymraeg eu cyfrif fel myfyrwyr cyfrwng Cymraeg.
  4. Dangosir y Sgôr tariff cyfartalog fesul myfyrwr ar gyfer y myfyrwyr a gafodd eu derbyn drwy UCAS yn 2002/03 yn unig, gyda Sgôr tariff nad yw'n sero.
  5. Mae amrediad rhyngchwartel y Sgôr tariff fesul myfyrwr rhwng y gwerth y mae 25% o'r gwerthoedd yn is nag ef a'r gwerth y mae 25% o'r gwerthoedd yn uwch nag ef.
  6. Oedran ar 31 Awst 2002.
  7. Mae canrannau'r myfyrwyr ag anabledd a'r myfyrwyr sy'n derbyn DSA o blith y rheini â statws anabledd hysbys.
  8. Mae pob gwerth sy'n llai na 5 wedi'u mynegi fel \*. Lle y gellir nodi'r gwerthoedd, ataliwyd ffigurau pellach ac mae'r rhain wedi'u mynegi fel +.

Gwybodaeth am gyfle cyfartal

Lefel	Cam	Nifer y Myfyrwyr	Myfyrwyr sy'n 25 oed neu'n hyn		Cenedl			Tarddiad ethnig			Statws anabledd							
			Nifer	%	Gwryw		Benyw		Gwyn		Lleiafrif ethnig		Nis datgelwyd		Anabledd		Derbyn DSA	
					Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Israddedig		2,334	499	21	386	17	1,948	83	2,211	95	22	1	101	4	111	5	37	2
Ol-raddedig		1,570	591	38	515	33	1,055	67	1,385	88	19	1	166	11	47	3	18	1
Cyfanswm		3,904	1,090	28	901	23	3,003	77	3,596	92	41	1	267	7	158	4	55	1

## PRIFYSGOL CYMRU, ABERYSTWYTH

Yr Hen Goleg, Stryd y Brenin, Aberystwyth, SY23 2AX.

[www.aber.ac.uk/education](http://www.aber.ac.uk/education)

Cyfarwyddwr yr Ysgol Addysg a Dysgu Gydol Oes	Yr Athro Peter S Neil.
Nodweddion arbennig	Hyfforddiant mewn gwahanol sefyllfaoedd: cyfnodau o waith yn y Brifysgol yn gymysg â chyfnodau o brofiad ysgol mewn ysgolion ar hyd a lled Cymru.
Cyrsiau: Cynradd	TAR Cynradd. (Cwrs blwyddyn ar gyfer addysgu'r grŵp oedran 3-11, gan arbenigo mewn naill ai blant 3-8 oed neu 7-11 oed.)
Ysgolion Partneriaeth	Tua 100 ysgol yng Ngheredigion, Powys, Sir Benfro, Sir Ddinbych, Wrecsam a Swydd Amwythig.
Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg	Cwrs ar gael yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Bydd myfyrwyr sy'n dilyn y cwrs cyfrwng Cymraeg yn cael lleoliadau mewn ysgolion Cymraeg neu ddwyieithog. Darperir cyrsiau i ddysgwyr yn ystod yr wythnosau a dreulir yn y Brifysgol.
Cyrsiau: Uwchradd	TAR Uwchradd: Almaeneg, Bioleg, Cemeg, Cymraeg, Daearyddiaeth, Drama, Ffiseg, Ffrangeg, Hanes, Saesneg.
Ysgolion Partneriaeth	Tua 50 ar hyd a lled Cymru: Ceredigion, Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro, Powys, de Gwynedd, Sir Ddinbych, Caerffili, Caerdydd, Abertawe, Blaenau Gwent.
Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg:	Yr holl bynciau ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd myfyrwyr sy'n dilyn cyrsiau trwy'r Gymraeg yn mynychu cyrsiau ychwanegol i wella eu gfael ar yr iaith ysgrifenedig a llafar, a gallant dderbyn cymhelliant ariannol. Bydd siaradwyr Cymraeg yn gwneud eu hymarfer dysgu mewn ysgolion Cymraeg neu ddwyieithog.
Nodweddion eraill	Mae amrywiaeth o gyrsiau Opswn Prifysgol-canolig ar gael yn ychwanegol at brif bwnc y myfyrwr. Mae'r rhain yn cynnwys Drama, Saesneg CA3, Daearyddiaeth CA3, Mathemateg CA3, Dysgu Chwaraeon, Anghenion Addysgiadol Arbennig. Cynigir trwy ddulliau dysgu-o-bell hefyd y rhannau o'r cyrsiau leithoedd Tramor Modern a Chymraeg a addysgir fel arfer yn y Brifysgol.
Cysylltiad	Ms Margaret Bevan, Ffôn 01970 622104, Ffacs 01970 622258, Ebost <a href="mailto:dysgu@aber.ac.uk">dysgu@aber.ac.uk</a> .



## Gwybodaeth Estyn: PRIFYSGOL CYMRU, ABERYSTWYTH

Arolygwyd: 2001

Math o Ddarpariaeth	Graddau Estyn					Cyffredinol
	a	b	c	d	e	
Cynradd	2	2	3	3	3	2
TAR Uwchradd yn gyffredinol	2	2	3	3	3	2
Pynciau TAR Uwchradd:						
Cymraeg	2	1	2	2		
Saesneg	2	2	2	2		
Drama	2	2	2	3		
Ieithoedd Tramor Modern	3	2	2	2		
Hanes	2	2	2	2		
Daearyddiaeth	2	1	2	2		
Gwyddoniaeth	3	2	2	3		

Categorïau yn cael eu diffinio fel a ganlyn:

- a Safon cymhwysedd addysgu y myfyrwyr
- b Ansawdd hyfforddi ac asesu myfyrwyr
- c Dewis myfyrwyr ac ansawdd y myfyrwyr a recriwtir
- d Ansawdd staff, adnoddau dysgu ac adeiladau
- e Rheolaeth a sicrhau ansawdd

Mae'r system o raddau am y pum elfen yn cael ei ddiffinio fel a ganlyn:

- 1 Da iawn: llawer o nodweddion da, rhai nodweddion rhagorol
- 2 Da: nodweddion da a dim diffygion mawr
- 3 Boddhaol: nodweddion da yn gorbwysio rhai diffygion
- 4 Anfodddhaol: rhai nodweddion boddhaol ond diffygion mewn meysydd pwysig
- 5 Gwael: llawer o ddiffygion

## Data am Fyfrwyr 2002/03: PRIFYSGOL CYMRU, ABERYSTWYTH

Ôl-raddedig

Cam	Pwnc	Nifer y Myfyrwyr	Myfyrwyr gyda gradd gyntaf neu ll(i) ar y cyfnod mynediad		Myfyrwyr Cyfrwng Cymraeg		Myfyrwyr yn Ennill SAC yn 2002/03		
			Nifer gyda gradd is-raddedig Gyntaf/ll(i)	%	Nifer	%	Nifer yn ennill SAC	%	% Cyfrwng Cymraeg
Cynradd		125	45	36	19	15	119	95	13
Uwchradd	Bioleg	21	12	57	*		20	95	10
	Cemeg	5	0	0	0	0	+		0
	Drama	15	8	53	*		14	93	7
	Saesneg	17	13	76	*		17	100	6
	Daearyddiaeth	31	12	39	10	32	26	84	31
	Hanes	24	11	46	5	21	23	96	22
	Ieithoedd Tramor Modern	12	+		5	42	12	100	42
	Ffiseg	9	*		*		8	89	13
	Cymraeg	5	5	100	5	100	*		100
Cyfanswm		264	115	44	50	19	248	94	17

Gwybodaeth am Gyfle Cyfartal

Lefel	Cam	Nifer y Myfyrwyr	Myfyrwyr sy'n 25 oed neu'n hyn		Cenedl				
			Nifer	%	Gwryw		Benyw		
Ôl-raddedig	Cynradd	125	27	22	25	20	100	80	
	Uwchradd	139	43	31	57	41	82	59	
Cyfanswm		264	70	27	82	31	182	69	

Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr HESA 2002/03

- Nodiadau:
- 1. Nifer y myfyrwyr a ddechreuodd ar 1 Tachwedd 2002 neu cyn hynny, na wnaethant ymadael cyn 2 Tachwedd 2002.
  - 2. Mae % y myfyrwyr cyfrwng Cymraeg a gafodd SAC fel canran o'r cyfanswm a gafodd SAC.
  - 3. Caiff myfyrwyr sy'n arbenigo yn y Gymraeg eu cyfrif fel myfyrwyr cyfrwng Cymraeg.
  - 4. Oedran ar 31 Awst 2002.
  - 5. Mae pob gwerth sy'n llai na 5 wedi'u mynegi fel \*. Lle y gellir nodi'r gwerthoedd, ataliwyd figurau pellach ac mae'r rhain wedi'u mynegi fel +.

## PRIFYSGOL CYMRU, BANGOR

Ysgol Addysg, Saffle'r Normal, Ffordd Caergybi, Bangor, LL57 2PX

[www.bangor.ac.uk/addysg](http://www.bangor.ac.uk/addysg)

Pennaeth yr Ysgol Addysg	Dr K Janet Pritchard.
Nodweddion arbennig	Cyrsiau sy'n cwmpasu gofynion y sectorau cynradd ac uwchradd, gan gynnwys datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer athrawon a phenaethiaid. Mae'r holl gyrsiau ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae'r Ysgol hefyd yn gweithredu fel Corff Argymhell ar gyfer y Rhaglen Athro Graddedig.
Cyrsiau: Cynradd	BAdd Cynradd (3 blynedd). TAR Cynradd.
Ysgolion Partneriaeth	170 ysgol gynradd ar draws Gogledd Cymru ynghyd â rhai yng Ngogledd orllewin Lloegr.
Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg	Mae astudiaethau craidd myfyrwyr cyfrwng Cymraeg yn cynnwys Cymraeg a Saesneg. Gall myfyrwyr di-Gymraeg fanteisio ar y ddarpariaeth i ddysgu Cymraeg fel ail iaith fel rhan o'u hastudiaethau craidd. Gellir astudio cydrannau eraill y cwrs trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Lleolir y myfyrwyr mewn ysgolion lle cânt gyfle i addysgu eu pynciau yn Gymraeg a/neu Saesneg fel sy'n briodol o dan arweiniad mentoriaid profiadol.
Cyrsiau: Uwchradd	BSc Uwchradd (3 blynedd): Dylunio a Thechnoleg yn arwain at SAC. TAR Uwchradd: Addysg Gorfforol, Addysg Grefyddol, Almaeneg, Celf a Dylunio, Cerddoriaeth, Cymraeg, Ffrangeg, Gweithgareddau Awyr Agored, Gwyddoniaeth (Bioleg, Cemeg, Ffiseg), Mathemateg, Saesneg, Technoleg Gwybodaeth.
Ysgolion Partneriaeth	55 ysgol uwchradd a 15 canolfan addysg awyr agored yng Ngogledd Cymru.
Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg:	Darperir sesiynau iaith ychwanegol i alluogi'r myfyrwyr i wella eu Cymraeg ac i ddod yn gyfarwydd â defnyddio'r iaith yn eu pynciau. Lleolir y myfyrwyr mewn ysgolion lle cânt gyfle i addysgu eu pynciau yn Gymraeg o dan arweiniad mentoriaid profiadol. (Ar hyn o bryd mae pob myfyrwr sy'n dilyn y cwrs hwn yn gymwys i dderbyn grant gan Lywodraeth y Cynulliad.)
Nodweddion eraill	Gall myfyrwyr TAR Uwchradd ddilyn Gweithgareddau Awyr Agored fel ail brif bwnc neu gallant ddewis dilyn ail bwnc. Mae modd defnyddio dulliau dysgu – o – bell i ddilyn y rhan o'r cwrs Gwyddoniaeth a addysgir fel arfer yn y Brifysgol.
Cysylltiad	Cyrsiau israddedigion a TAR cynradd: Mrs Catrin Lewis, Ffôn 01248 383012, ebost <a href="mailto:eds068@bangor.ac.uk">eds068@bangor.ac.uk</a> ; TAR uwchradd: Mrs Beryl Hughes, Ffôn 01248 382933, ebost <a href="mailto:eds035@bangor.ac.uk">eds035@bangor.ac.uk</a> .



